**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**

**PWNC:** **PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL - DYDD LLUN, 4 HYDREF 2021 DYDD LLUN, 4 HYDREF 2021**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: M. MOORE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: P. Baldwin
M. Cook
P. Edwards
S. Healy
W. Hodgins
J. C. Morgan
L. Parsons
B. Summers
G. Paulsen
J. Hill
J. P. Morgan
T. Smith

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am abseoldeb ar gyfer y Cynghorwyr C. Meredith, M. Day, J. Holt a L. Winnett. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorwyr B. Summers a M. Cook fuddiant yn yr eitem ddilynol:<br><br>Eitem Rhif 11 Adroddiad Perfformiad Silent Valley Waste Services Cyf. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 19 GORFFENNAF 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2021, yn cynnwys:<br><br>*<u>Adroddiad Sefyllfa Anifeiliaid Crwydrol</u>*<br><br>Cadarnhaodd y Cadeirydd y cyflwynir adroddiad i Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD O BOBL, PERFFORMIAD A CHYDNERTHEDD ARIANNOL MEWN GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol adroddiad Archwilio Cymru, 'Adolygiad Pobl, Perfformiad a Chydnerthedd Ariannol mewn Gwasanaethau Cymunedol' (ynghlwm yn Atodiad 1). Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu Gwasanaethau Cymunedol mewn ymateb i gynigion Archwilio Cymru ar gyfer gwella. | |

Aeth cynrychiolydd Archwilio Cymru drwy'r adroddiad wedyn a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo, sef:

- Mae cyfleoedd i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol gynyddu cydnerthedd drwy rannu'r dysgu ac arfer da a ddangosir mewn meysydd gwasanaeth penodol i ddatblygu ei threfniadau ymhellach i reoli perfformiad a chryfhau cynllunio strategol ariannol a gweithlu.

- Mae'r gwasanaeth gwastraff wedi sicrhau cynnydd sylweddol dros y cyfnod ers 2015 drwy gynllunio strategol cadarn a gefnogir gan fabwysiadu diwylliant dysgu i reoli newid yn effeithlon.

- Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth gweithlu corfforaethol ac er bod Gwasanaethau Cymunedol yn deall materion gweithlu allweddol ac yn cymryd camau i'w trin, mae cwmpas am fwy o gydweithio gydag Adnoddau Dynol i wella cynllunio a chydnerthedd gweithle.

- Mae perfformiad gwastraff ac ailgylchu wedi gwella'n sylweddol ond mae defnydd data perfformiad yn anghyson ar draws Gwasanaethau Cymunedol ac mae rhai adroddiadau perfformiad heb ddigon o fanylion.

- Mae trefniadau monitro cyllideb corfforaethol cadarn wedi helpu i reoli gorwariant Gwasanaethau Cymunedol ond mae cwmpas a ffocws cynllunio ariannol yn rhy fyr-dymor.

Cadarnhaodd cynrychiolydd Archwilio Cymru y dynodwyd un cynnig ar gyfer gwella, sef '*i gryfhau ei gydnerthedd, dylai Gwasanaethau Cymunedol sicrhau fod dysgu ac arfer da sy'n bodoli o fewn ei wahanol feysydd gwasanaeth yn cael ei rannu ledled y gyfarwyddiaeth. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried os byddai'n cael budd o rannu enghreifftiau yn fwy eang gan y Cyngor.'*

Diolchodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol i Archwilio Cymru am eu cefnogaeth drwy gydol y broses adolygu. Yn nhermau'r un cynnig ar gyfer gwella, teimlai fod hyn yn rhywbeth cadarnhaol ac yn fwy o ddathliad o lwyddiannau'r Adran ac y dylai'r neges hon gael ei throsglwyddo i elfennau eraill o'r Cyngor. Dywedodd hefyd y cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod y 18 mis diwethaf drwy bandemig Covid pan oedd gwasanaethau rheng

| | | |
|---|---|---|
| | flaen dan bwysau enfawr.<br><br>Aeth wedyn yn fanwl drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Yn nhermau'r ymateb rheolaeth i'r cynnig ar gyfer gwella, h.y. sicrhau y caiff dysgu ac arfer da eu rhannu ledled yr Awdurdod, cadarnhaodd y byddai'r Tîm Gwastraff yn gwneud cyflwyniadau yn ehangach i grwpiau amgylchedd a'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol. Cynigiwyd hefyd gyflwyno'r model cynhyrchu incwm gwasanaethau technegol i'r gynulleidfa ehangach maes o law. Dilynir hyn gyda chynlluniau busnes ac adroddiadau perfformiad i'r Pwyllgorau perthnasol.<br><br>Dywedodd Aelod y dylai'r Cyngor ystyried sefydlu cronfa wrth gefn i ymateb i bwysau annisgwyl, a gofynnodd os oedd unrhyw awdurdodau lleol yn dilyn y dull gweithredu yma.<br><br>Dywedodd cynrychiolydd Archwilio Cymru na wyddai am unrhyw awdurdodau lleol eraill oedd yn dilyn y dull gweithredu yma, ond dywedodd na fyddai pob Cyngor yn destun yr un lefel o orwariant â Blaenau Gwent ac y byddai ffactorau cyfrannu fel y tywydd a phroblemau tipio anghyfreithlon yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Dywedodd y Cyngor ddadansoddi data i ddynodi tueddiadau dros nifer o flynyddoedd i helpu lliniaru digwyddiadau yn y flwyddyn sy'n anodd cynllunio ar eu cyfer.<br><br>Dywedodd Aelod fod hwn yn adroddiad boddhaus, yn neilltuol y 5 prentis a gyflogwyd a'r cyfleoedd datblygu gyrfa a gafodd eu creu o fewn yr Adran. Cytunodd hefyd gyda'r awgrym o gronfa wrth gefn a dywedodd y dylai hyn gael ei ystyried.<br><br>Dywedodd Aelod arall fod hwn yn adroddiad cadarnhaol; fodd bynnag roedd yn bryderus y dynodwyd mater diweddaru system iTrent.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod hyn yn her yn neilltuol gyda nifer y staff mewn gwasanaethau rheng-flaen a hefyd yr heriau technegol yn gysylltiedig â'r system technoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, cadarnhaodd y nodwyd sylwadau Archwilio Cymru ac mae'r Adran yn awr yn gweithio gyda Datblygu Sefydliadol ar y mater hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn adroddiad Archwilio Cymru a'r camau i weithredu'r cynigion ar gyfer gwella. (Opsiwn 1). | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 7 | **PERFFORMIAD GWASTRAFF AC AILGYLCHU 2020-21**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth.<br><br>Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar ddeilliannau perfformiad gwastraff ac ailgylchu ar gyfer 2020-21.<br><br>Mae crynodeb o'r data perfformiad yn Atodiad 1 a dywedodd y Swyddog fod y Cyngor wedi rhagori ar darged ailgylchu statudol Llywodraeth o 58% a 64% yn y ddwy flynedd flaenorol. Cadwyd y llwyddiant hwn yn 2021 ac roedd y Cyngor wedi rhagori ar y targed drwy gyrraedd 64.29%. Cydnabu y cyflawnwyd hyn drwy waith caled y Tîm Gwastraff, yn gweithio gyda phartneriaid yn WRAP, a hefyd Dîm Cyfathrebu, Perfformiad ac Uwch Reoli y Cyngor; ond yn bwysicaf oll breswylwyr Blaenau Gwent yn yr hyn a fu'n flwyddyn anodd iawn. Drwy flaenoriaethu gofalus a chyswllt gyda'n gweithlu, dywedodd y gallodd y Cyngor gynnal yr holl gasgliadau gwastraff ac ailgylchu drwy gydol pandemig Covid.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnodd sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Gofynnodd Aelod os y byddai cyfraddau ailgylchu yn cynyddu pe byddai'r Cyngor yn gostwng nifer y mannau casglu cymunol ledled y Fwrdeistref. Teimlai ei bod yn annheg y disgwylir i fwyafrif preswylwyr gydymffurfio gyda nifer y bagiau sbwriel y gallent eu rhoi allan, ond bod preswylwyr mewn ardaloedd casglu cymunol yn medru gadael cymaint ag yr hoffent. Gofynnodd hefyd os caiff tipio anghyfreithlon a gasglwyd o stadau Tai Calon ei gynnwys yn ffigurau'r Cyngor.<br><br>Yng nghyswllt mannau casglu cymunol y Cyngor dywedodd y gwnaed peth cynnydd lle'n bosibl; fodd bynnag roedd y Cyngor yn methu symud rhai mannau casglu oherwydd cyfyngiadau iechyd a diogelwch.<br><br>Yng nghyswllt tipio anghyfreithlon ar stadau Tai Calon, dywedodd Arweinydd Tîm Diogelu'r Amgylchedd mai'r tirfeddianwr sy'n gyfrifol am symud gwastraff a adewir ar dir preifat. Deallai fod gan Tai Calon eu tîm glanhau eu hunain felly ni fyddai unrhyw dipio anghyfreithlon a symudent yn cael ei gynnwys yn ffigurau'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor.<br><br>Cadarnhaodd hefyd y sefydlwyd tîm newydd i edrych ar fannau casglu answyddogol sy'n achosi problemau sylweddol. Pan fyddai'r gwaith hwn wedi ei ddatrys, y bwriad yw wedyn edrych ar fannau casglu swyddogol i sicrhau fod pawb yn cydymffurfio gyda'r rheolau.<br><br>Canmolodd Aelod y Tîm Gwastraff ac Ailgylchu am eu gwaith mewn blwyddyn heriol iawn. Gofynnodd os oedd cynllun wrth gefn yn ei le pe byddai prinder tanwydd, diffyg gyrwyr HGV a salwch staff. Cyfeiriodd hefyd at y ffigurau ar gyfer compostio ailgylchu a dywedodd ei bod yn annheg cymharu Blaenau Gwent gydag awdurdodau lleol gwledig ac y dylai Llywodraeth Cymru ystyried dull tecach ar gyfer yr elfen hon o ailgylchu.<br><br>Mynegodd yr Aelod hefyd bryder am y cynnydd mewn gwastraff gweddilliol ac os oedd hyn oherwydd newid arferion a phreswylwyr yn cymysgu eu gwastraff gweddilliol gydag ailgylchu. Gofynnodd hefyd os yw'r dull 'apwyntiad yn unig' yn ein Canolfannau Ailgylchu yn ffactor sy'n cyfrannu a ph'un ai a fwriedir dychwelyd i system dim apwyntiad yn dilyn Covid.<br><br>Mewn ymateb i sylwadau'r Aelod am gynllun wrth gefn, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth i'r Cyngor dderbyn dosbarthiad tanwydd yr wythnos ddiwethaf a fyddai'n parhau 3 wythnos ar batrwm gweithio arferol. Mae cynllun yn ei le pe byddai prinder tanwydd a'r angen i ailddosbarthu tanwydd i wasanaethau eraill, ond hyd yma nid oedd y prinder tanwydd a adroddwyd yn y wasg wedi cael unrhyw effaith.<br><br>Dywedodd fod prinder gyrwyr HGV yn broblem genedlaethol ond yn ffodus ni fu unrhyw effaith ar wasanaethau'r Cyngor. Dywedodd bod casglu gwastraff a gweithredu cynnal a chadw gaeaf o 1 Tachwedd 2021 yn parhau i fod yn wasanaethau blaenoriaeth yr Adran o 1 Tachwedd 2021. Fodd bynnag, cafodd y mater ei ddangos ar y gofrestr risg pe byddai cynnydd mawr mewn sylwch a heintiadau Covid.<br><br>Yng nghyswllt y ffigurau ailgylchu compostio, cytunodd fod Blaenau Gwent dan anfantais gyda nifer gyfyngedig o ardaloedd gwyrdd o gymharu gydag awdurdodau lleol gwledig. Fodd bynnag, yn y dyfodol y bwriad yw canolbwyntio ymdrechion ar wella'r elfen ailgylchu bwyd. | |

Yng nghyswllt y cynnydd mewn gwastraff gweddilliol dywedodd fod y ffaith bod gweithrediadau gorfodaeth wedi dod i ben am gyfnod sylweddol drwy 2020/21 mewn ymateb i'r pandemig Covid wedi cyfrannu. Fodd bynnag, bwriedir ailosod gweithgareddau gorfodaeth a gobeithir y byddai hyn yn helpu i newid ymddygiad a dychwelyd i'r effaith gadarnhaol cyn y pandemig.

Yng nghyswllt y system archebu a weithredwyd fel canlyniad i bandemig Covid, cadarnhaodd y Swyddog fod y system wedi gwella. Dywedodd, er bod nifer cyfyngiadau Covid wedi llacio, fod yr elfen olrhain a chanfod yn dal yn ei lle a bod yn dal i fod gyfrifoldeb i gyfyngu niferoedd yn y safleoedd. Dywedodd fod adborth gan staff yn gadarnhaol a bod nifer sylweddol o breswylwyr sy'n defnyddio'r safleoedd yn ymddangos yn hapus gyda'r system sydd yn ei lle, fodd bynnag roedd yn cydnabod fod rhai preswylwyr yn ei weld fel bloc i ddefnyddio'r safleoedd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y gwahaniaeth mewn ffigurau ar gyfer y ddau safle, esboniodd y Swyddog fod yr adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad ar gyfer 2020/21. Dim ond New Vale oedd yn weithredol yn ystod 2020/21 gan na agorodd safle Roseheyworth tan yn gynharach yn y flwyddyn ariannol hon.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach am ffigurau ailgylchu ar gyfer casgliadau lon gefn, dywedodd y Swyddog nad oedd ganddo ffigurau penodol gan fod hyn yn rhan o'r rownd ailgylchu cyffredinol. Fodd bynnag bwriedir gwneud casgliadau lon gefn ychwanegol yn ystod y misoedd nesaf fel rhan o'n gwaith gwella llwybrau.

Gofynnodd Aelod os oedd y ffigurau ar gyfer y deunyddiau ailgylchu a adawyd yn ein Canolfannau Ailgylchu yn cael eu cynnwys yn ffigurau ailgylchu o ddrws i ddrws.

Esboniodd y Swyddog fod holl ffrydiau gwastraff yn ein Canolfannau Ailgylchu wedi ei gynnwys yn ein tunelli metrig. Fodd bynnag, dim ond cardfwrdd a metel sgrap sy'n cynhyrchu incwm ac roedd yn rhaid i'r Cyngor dalu costau gwaredu ar gyfer yr holl ddeunyddiau eraill a adawyd yn y safleoedd.

Dilynodd trafodaeth fer am y Canolfannau Ailgylchu pan ddywedodd y Swyddog y gwneir llai o ddefnydd o safle Roseheyworth na New Vale, fodd bynnag nid oedd unrhyw

| | | |
|---|---|---|
| | ffigurau defnydd ar gael cyn pandemig Covid a chafodd system archebu ei rhoi ar waith. Dywedodd mai dim ond nifer fach o gwynion a gafwyd am y system archebu a chadarnhaodd fod darparu archebion yr un diwrnod yn cael ei ymchwilio.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at frawddeg olaf adran 5.1 yr adroddiad a gofynnodd pam nad oedd y gyllideb wedi alinio i'r newid mewn arferion ailgylchu.<br>Esboniodd y Swyddog fod arferion wedi newid ers y newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth yn 2015 ac mae cynwysyddion ailgylchu yn ddrutach a mwy o alw amdanynt yn neilltuol yn dilyn stormydd ym misoedd y gaeaf. Mae'r ymgyrch i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru hefyd yn golygu bod angen adnoddau ychwanegol, ond gobeithio y byddai'r polisïau sy'n awr yn eu lle yn gwrthbwyso'r adnoddau ychwanegol hyn o hyn ymlaen.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog y cynhaliwyd cynllun peilot o tua 2,000 o anheddau i wahanu gwastraff gwydr o gardfwrdd. Roedd yr adborth o'r cynlluniau peilot yn gadarnhaol a bwriedir ymestyn hyn i dros 5,000 o anheddau ym mhob rhan o'r Fwrdeistref yn y misoedd i ddod. Byddai hyn yn rhoi capasiti ychwanegol ar gyfer preswylwyr i ailgylchu mwy o gardfwrdd.<br><br>Gofynnodd Aelod arall am y cynllun treialu i ailgylchu bagiau plastig ac atebodd y Swyddog y cynhaliwyd y prosiect hwn mewn cysylltiad gyda CBS Merthyr Tudful, gyda chefnogaeth gan WRAP. Nid yw canlyniadau'r cynllun wedi eu dadansoddi hyd yma a phan gwblhawyd hynny, byddid yn dod â nhw i Aelodau eu hystyried gan fod costau yn gysylltiedig gyda'r cynllun.<br><br>Cafodd Opsiwn 1 ei gynnig gan Aelod, ac eiliwyd hyn.<br><br>Cafodd Opsiwn 2 ei gynnig gan Aelod arall gyda'r ychwanegiad y dylid cynnal adolygiad o'r gyllideb, gyda golwg ar sefydlu cyllideb wrth gefn.<br><br>Eiliodd Aelod y Cynnig.<br><br>Cynhaliwyd pleidlais a<br><br>CHYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 8** | <u>**ADRODDIAD PERFFORMIAD GWASANAETHAU CYMUNEDOL 2020/21**</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar ddeilliannau perfformiad Gwasanaethau Cymunedol dros gyfnod 2020/21, yn cynnwys y meysydd gwasanaeth allweddol:<br>• Gwasanaethau Seilwaith<br>• Gwasanaethau Cymdogaeth; a<br>• Gwasanaethau Eiddo<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelod am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael o fewn yr Adran i gynnal archwiliadau, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod lefel yr adnoddau yn her gan fod y gwasanaeth yn brysur tu hwnt. Dywedodd y byddai Aelodau yn gwybod am y cyfyngiadau cyllid yn y sector cyhoeddus dros nifer o flynyddoedd, gyda disgwyl i'r sector cyhoeddus wneud mwy o waith gyda'r un lefel o adnoddau. Fodd bynnag, cadarnhaodd y caiff llwythi gwaith eu blaenoriaethu'n ofalus a bod cyfleoedd cyllido yn cael eu hymchwilio lle bynnag sy'n bosibl am swyddi, a hefyd brentisiaid. Cadarnhaodd y byddai pwysau yn parhau i gael eu monitro i sicrhau adnoddau digonol.<br><br>Dywedodd Aelod y dylid rhoi ystyriaeth i ailddechrau gwasanaeth llocio. Mynegodd bryder hefyd am faint o dipio anghyfreithlon sy'n mynd rhagddo yn y Fwrdeistref.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol bod y Cyngor blaenorol wedi penderfynu dod â'r gwasanaeth llocio i ben.Fodd bynnag, pe byddai Aelodau yn teimlo fod problem anifeiliaid crwydrol yn ddigon sylweddol i haeddu ailddechrau'r gwasanaeth, y byddai hynny'n mynd drwy'r broses adolygu briodol.<br><br>Yng nghyswllt pryderon am dipio anghyfreithlon, dywedodd i'r Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon gael ei mabwysiadu tua chwe mis yn ôl a gobeithio y gwelir gwelliannau dros y misoedd nesaf. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan Aelod am Heol Aber-bîg a'r Bwa Mawr, dywedodd y Swyddog y gwnaed llawer o waith ar Heol Aber-bîg ac y caiff hynny ei adlewyrchu yn y costau. Byddai'r adran honno o'r ffordd yn parhau i gael ei monitro a sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaethau dichonolrwydd ar gyfer posibilrwydd gwella'r ffordd yn y tymor hwy. Yng nghyswllt y Bwa Mawr, cadarnhaodd y Swyddog y byddai gwaith yn dechrau yn y dyfodol agos.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| **No. 9** | **<u>ADRAN 19 ADRODDIAD YMCHWILIO LLIFOGYDD, LLANHILEDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd y Peiriannydd Adroddiad Ymchwilio Llifogydd Adran 19 ar gyfer Llanhiledd yn dilyn y llifogydd a fu yn Meadow Street a Railway Street yn ystod 15-16 Chwefror 2020. Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad yn fanwl a thynnu sylw at ganfyddiadau allweddol yr adroddiad a fanylir yn adran 2.3 yr adroddiad a'r camau gweithredu allweddol a fanylir yn adran 2.4.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn siomedig fod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd cyn i Aelodau Ward ei weld. Fodd bynnag, diolchodd i holl staff y Cyngor ac asiantaethau eraill oedd wedi gweithio'n ddiflino adeg y llifogydd ac yn y dyddiau a'r wythnosau wedyn. Er bod hwn yn adroddiad cynhwysfawr iawn, dywedodd nad oedd yn adlewyrchu torcalon y preswylwyr yr effeithiwyd arnynt.<br><br>Cyfeiriodd wedyn at dudalen 112 yr adroddiad, sef gorsaf bwmpio Dŵr Cymru a dywedodd y credai y dylai'r ymchwiliad fod wedi ei gynnal gan gorff annibynnol. Dywedodd preswylwyr wrtho fod y pwmp yn ddiffygiol ond pan oeddent wedi ceisio rhoi adroddiad am hynny i Dŵr Cymru dim ond peiriant ateb oedd ar gael.<br><br>Gofynnodd yr Aelod hefyd os oedd y Cyngor wedi cynnal gwiriadau pellach rhwng dyddiad y digwyddiad a 28 Chwefror 2020.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Beiriannydd Draeniad Tir y | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynhaliwyd arolygon CCTV rai wythnosau ar ôl y digwyddiad ym mis Mawrth. Cadarnhaodd y cynhelir arolygon rheolaidd o gwlfertau, ac yn dibynnu ar y dosbarthiad caiff hyn ei wneud bob 2 wythnos ar gyfer cwlfertau hollbwysig a bob 12 wythnos ar gyfer cwlfertau arwyddocaol.<br><br>Dywedodd yr Aelod y byddai llifogydd wedi bod eto ar 28 Chwefror 2020 yn Railway Street onibai am waith Swyddog a ganfu flociad arall rhwng Railway Street a Meadow Street. Dywedodd y bu llifogydd mewn 89 annedd a dylai'r Cyngor ystyried rhoi iawndal i'r preswylwyr hynny y bu'n rhaid iddynt adael eu cartrefi am 10 mis ac y dylid gwneud y broses iawndal mor rhwydd ag sydd modd.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at adran c ar dudalen 127 yr adroddiad a gofynnodd os y gwnaed unrhyw waith unioni i symud y bibell. Tanlinellodd bwysigrwydd gwneud pob gwaith unioni fel mater o frys i liniaru unrhyw broblemau yn y dyfodol.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Beiriannydd Draeniad Tir na fedrid tynnu'r bibell fod bynnag mae ymchwiliadau yn mynd rhagddynt i benderfynu os yw'n bosibl gosod pibell ychwanegol ac ailgyfeirio'r brif ddraen. Cadarnhaodd y sicrhawyd cyllid i wneud gwaith unioni gyda dyddiad cau i wario'r arian erbyn diwedd mis Mawrth 2022, ac mae ymchwiliadau safle yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan esboniodd y Peiriannydd fod yr adroddiad yn dweud ei bod yn debygol fod y cyfnod trwm iawn a hir o lawiad wedi dirlenwi'r tir a bod y 2 flociad a ddynodwyd yn y system ddraeniad wedi cyfrannu at y llifogydd.<br><br>Awgrymodd Aelod ddiwygiad i Opsiwn 1, sef bod y cyngor yn cyflwyno cynllun i roi iawndal i breswylwyr yr oedd y llifogydd wedi effeithio arnynt.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan esboniodd y Swyddog Craffu nad yw o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor i gytuno ar iawndal.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod y byddai'n cysylltu ag Aelod Gweithredol yr Amgylchedd ac yn gofyn am gyfarfod cyhoeddus.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn Adroddiad Ymchwilio Llifogydd Adran 19 Llanhiledd a'i gyhoeddi yn unol â deddfwriaeth FWMA 2010 (Opsiwn 1). | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 10** | **BLAENRAGLEN GWAITH: 15 TACHWEDD 2021**<br><br>Cyflwynwyd y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod sydd i'w gynnal ar 15 Tachwedd 2021.<br><br>Gofynnodd Aelod i'r eitemau ychwanegol dilynol gael eu hystyried i'w cynnwys ar y Flaenraglen Gwaith:<br><br>• Rhestr lawn o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol<br>• Adroddiad ar gyflwr systemau draeniad ledled y Fwrdeistref.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn y Flaenraglen Gwaith.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd S. Healy y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 11** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD SILENT VALLEY WASTE SERVICES CYF**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, sef o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r eitem gael ei heithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra trafodir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar ddeilliannau perfformiad Silent Valley Waste Services Cyf ar gyfer 2020/21.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell bod yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch materion busnes/ariannol personau heblaw'r Awdurdod yn cael ei dderbyn a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |